

Crynodeb o ganfyddiadau'r
Digwyddiadau ymgysylltu
Ffydd/Pobl dduon ac Asiaidd a
lleiafrifoedd ethnig (BAME)

Ymgynghoriad ar gynigion i
sicrhau mynediad i'r cwricwlwm
llawn i bob dysgwr

Ionawr 2020



Contents

1. Cefndir a chyflwyniad.....	3
2. Carfanau ymgysylltu.....	4
3. Methodoleg	5
4. Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol	6
A. Grwpiau Ffydd.....	6
B. Sefydliadau BAME a'r cynigion	16
5. Cydnabyddiaethau	17

1. Cefndir a chyflwyniad

Cynigion i sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn i bob dysgwr

Yn yr 'Ymgynghoriad Sicrhau mynediad at y cwricwlwm llawn', cynigiodd Llywodraeth Cymru bod rhaid i bob plentyn mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru gael yr hawl i fynediad at gwricwlwm eang a chytbwys; mae hyn yn cynnwys mynediad i Addysg Grefyddol (AG) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) ac i'r gwersi hyn gael eu gwneud yn statudol i bob dysgwr eu mynychu. Yn y cwricwlwm presennol, mae gan rieni hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o AG ac ACRh.

Ymrwymiad i hysbysu'r cyhoedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynnal ymgyrch gyfathrebu i hysbysu pobl sy'n byw yng Nghymru o'u gweledigaeth o system addysg gwbl gynhwysol lle mae gan bob dysgwr fynediad teg i addysg sy'n diwallu eu hanghenion ac yn eu galluogi i gymryd rhan mewn dysgu, wrth elwa ohono a'i fwynhau.

Nododd Lywodraeth Cymru nifer o garfannau (Cymunedau Ffydd a BAME Cymreig) lle byddai angen ymgysylltu un-i-un i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru ddealltwriaeth llawn a chywir o safbwyntiau gwahanol gymunedau ynghylch y cynigion a amlinellir uchod.

Mae ymgysylltu'n llawn â chymunedau Ffydd a BAME Cymru nid yn unig yn arfer da ond hefyd yn ofniad cyfreithiol o dan Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Mae angen nodi effaith/effeithiau gwahaniaethol a'i liniaru/eu lliniaru. Mae gwybod am y cynigion hyn yn hawl sydd wedi'i hymgorffori yn y gyfraith ac yn un y gellir ei hwyluso gan y gallai'r cynigion effeithio'n anghymesur ar rai nodweddion gwarchoddedig yn ogystal â'r cyhoedd.

Nod y gwaith ymgysylltu hwn felly oedd 'plymio'n ddwfn' i'r cymunedau trwy arweinwyr cymunedol, porthorion ac arweinwyr ffydd i gasglu dealltwriaeth fanwl o'r ymatebion, yr argraffiadau a'r myfyrdodau ar y pwnc hwn gan y cymunedau a nodwyd o safbwyntiau diwylliannol a chrefyddol. Cynhaliodd Re: cognition ymchwil eilaidd hefyd i ehangu trafodaethau amserol yn ystod sesiynau ymgysylltu.

Yn ogystal â'r wybodaeth a gasglwyd, ein nod oedd defnyddio'r ymarfer hwn i:

- Ddatblygu ymhellach ymddiriedaeth yng ngwybodaeth, dibynadwyedd a didueddrwydd Re: cognition.
- Ennill cytundeb gan y sefydliadau a gafodd eu cyfweld i gynorthwyo i nodi nifer o garfannau targed ar gyfer ymgysylltu posibl yn y dyfodol.
- Nodi rhwystrau a phrofi ymyriadau posibl i gynorthwyo i ymgysylltu a hysbysu rhanddeiliaid, cynulleidfaoedd a chymunedau allweddol mewn unrhyw ymgysylltiad posibl yn y dyfodol.

2. Carfanau ymgysylltu

Er mwyn nodi'r ymyriadau posibl hyn, a'u dulliau ymgysylltu gorau, gwnaethom gyfweld â chynrychiolwyr o'r cyrff a nodwyd a ganlyn:

Grwpiau Ffydd

Wedi ystyried yn ofalus, dewiswyd y grwpiau ffydd canlynol i'w cyfweld. Mae'r rhestr yn cynnwys llawer o aelodau Fforwm Hil Llywodraeth Cymru.

- Catholig
- Eglwys yng Nghymru
- Cynghair Efynglaidd
- Cytûn - Eglwys Ynghyd yng Nghymru
- Tystion Jehofa
- Cyngor Mwslimaidd
- Iddewig - Synagog Unionged Unedig Caerdydd
- Shereen Williams - Caplan Mwslimaidd
- The Gathering - grŵp eciwmenaidd Cristnogol LGBT+
- Cyngor Eglwys Rhyddion
- Cyngor Hindwaidd Cymru
- Cymuned ffydd Baha'i
- Cyngor Rhyng-ffydd
- Eglwys Duon Affrica

Ni chyfwelwyd nifer o grwpiau ffydd eraill oherwydd materion capasiti. Fodd bynnag, rydym yn argymhell ymgysylltu â'r grwpiau hyn mewn unrhyw waith yn y dyfodol i sicrhau ein bod yn cael dealltwriaeth glir o'r materion a'r effeithiau ar y cymunedau hyn.

Sefydliadau BAME

Roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i Re:Cognition ymgysylltu â sefydliadau BAME. Isod mae rhestr o'r sefydliadau y gwnaethom eu dewis i ymgysylltu â nhw:

- Grŵp Merched Arabaidd Canolfan Ddatblygu Gymunedol Glan yr Afon
- BAWSO
- Canolfan Gymunedol Affrica
- Sefydliad Henna
- Tîm Cymorth Ieuencid Ethnig
- Oasis
- The Onex Link Foundation
- Ymddiriedolaeth Hyatt
- Grŵp Merched Arabaidd Glan yr Afon
- Cymdeithas Fagladeshaidd Caerdydd
- Nigeriaid Cymru
- Congolese Development Project
- Cymdeithas Tsieineaidd Yng Nghymru
- Race Council Cymru
- Grŵp Llywodraethwyr Ysgol / CRhA / grŵp Penaethiaid
- Glitter Cymru
- Community House – Casnewydd

3. Methodoleg

Cwestiynau a Strwythur y Cyfweiliadau

Roedd y cyfweiliadau ar ffurf sgwrs lled-strwythuredig gan ddefnyddio'r siâp a'r ffurf canlynol:

1. Amlinellodd y cyfwelydd hanes a phroses y cynnig.
2. Yna ceisiodd y cyfwelydd ddarganfod gwybodaeth y cyfwelai o'r cynigion ac unrhyw ystyriaethau hawliau dynol.

Yn dilyn ei ymateb i'r cwestiwn/cwestiynau uchod, sicrhaodd y cyfwelydd fod y cyfwelai yn deall cynnwys, effaith ac ystyriaethau hawliau dynol y cynigion yn llawn. Roedd hyn yn hanfodol oherwydd heb ddealltwriaeth lawn, ni fyddai eu hatebion dilynol wedi bod o fawr o werth.

3. Cwestiynau i alluogi Re:cognition i nodi safiad, gwybodaeth a phersbectif personol y **cyfwelai** gan gynnwys:
 - Safbwyntiau ac ystyriaethau crefyddol
 - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac ystyriaethau Hawliau dynol
 - Safbwyntiau ac ystyriaethau diwylliannol
 - Safbwyntiau ac ystyriaethau cenhedlaeth
 - Safbwyntiau a dylanwadau hanesyddol
 - Safbwyntiau personol y rhai a gafodd eu cyfweld
4. Cwestiynau i alluogi Re:cognition i nodi'r sefydliadau, etholwyr / aelodau a'u safle o fewn y gymuned, gwybodaeth a phersbectif gan gynnwys:
 - Gwybodaeth am y cynigion, CCUHP ac ystyriaethau Hawliau dynol
 - Safbwyntiau ac ystyriaethau crefyddol
 - Safbwyntiau ac ystyriaethau diwylliannol
 - Safbwyntiau ac ystyriaethau cenhedlaeth
 - Safbwyntiau ac ystyriaethau eraill
 - Asesiad y cyfweleion o ymateb y gymuned
5. Cwestiynau i alluogi Re:cognition i nodi sut y dylem ymgysylltu â sefydliadau'r cyfwelydd, etholwyr / aelodau a'u safle o fewn y gymuned, gwybodaeth a phersbectif y gymuned gan gynnwys:
 - Nodi sector, rôl a dylanwad sefydliadau
 - Canfod effeithiolrwydd unrhyw ddarpariaeth / cynlluniau presennol o wybodaeth codi ymwybyddiaeth
 - Gwerthusiad a oes angen ymgysylltu yn y dyfodol;
 - Nodi'r rhwystrau i ymgysylltu
 - Ennill dealltwriaeth gychwynnol o sut i ymgysylltu a hysbysu'r sefydliadau a'u rhanddeiliaid allweddol.

Gofynnwyd y cwestiynau hyn mewn ffordd hyblyg, yn gyd-destunol i'r sefydliad a gwybodaeth a safle'r cyfwelai.

4. Crynodeb o'r Canfyddiadau Allweddol

Mae'r bennod hon yn crynhoi canfyddiadau allweddol cyffredinol y digwyddiadau ymgysylltu grwpiau ffydd a BAME a gynhaliwyd fis Hydref / Tachwedd 2019.

A. Grwpiau Ffydd

i. Cymunedau ffydd wedi'u seilio ar Gristnogaeth - crynodeb

Mae 227 o ysgolion ffydd Cristnogol yng Nghymru .

Gwybodaeth am y cynigion

Ac eithrio un grŵp ffydd Cristnogol, roedd pawb a gyfwelwyd yn wybodus iawn ac yn ymwneud yn llawn â'r cynigion. Fodd bynnag, roeddent i gyd yn nodi dealltwriaeth gymysg ymhlith eu cynulleidfaoedd ac nid oedd ganddynt safle Cristnogol diffiniol.

Safiad ar y cynigion

Hawl rhieni i dynnu'n ôl o AG

Er bod yr holl ymatebwyr Cristnogol eisiau addysg o ansawdd AG dda, nid oedd dealltwriaeth glir ynghylch sut y gellid cyflawni hyn gyda rhai ymatebwyr eisiau cadw hawl rhieni i dynnu'n ôl tra bod eraill yn hapus iddo gael ei ddiddymu o dan yr amgylchiadau cywir.

Dywedodd nifer o arweinwyr Cristnogol fod y berthynas bŵer rhwng yr ysgol a rhiant yn anghyfartal iawn i bawb nad ydyn nhw'n gallu fforddio talu am addysg eu plant. Roedd arweinwyr Cristnogol Catholig ac Efengylaidd o'r farn bod cael hawl rhieni i dynnu'n ôl, mewn rhyw ffordd yn helpu i gydbwysu'r berthynas bŵer hon, tra bod yr Eglwys yng Nghymru o blaid dileu hawl rhiant i dynnu'n ôl o AG (unwaith ei bod yn fodlon â'r cwricwlwm newydd) gan y byddai'n helpu i ddemocrateiddio ac ehangu'r gwahanol grefyddau a ddysgir i bobl ifanc, gan alluogi cydraddoldeb dysgu ar draws ein holl gymunedau, gan ganiatáu ymdeimlad o bwy ydym ni a gwerthfawrogiad o amrywiaeth.

Adroddwyd bod cymysgu addysg grefyddol i mewn i addysg dyniaethau AoLE yn golygu y bydd hawl rhieni i dynnu'n ôl o AG yn amhosibl i'w weinyddu'n ymarferol mewn ysgolion uwchradd, ac felly mae cysylltu AG ac ACRh yn gamgymeriad tactegol. Adroddwyd petaent yn cael eu trin ar wahân, byddai hynny wedi hwyluso cael gwared ar hawl rhieni i dynnu'n ôl o Addysg Grefyddol mewn ffordd mwy syml a gyda gwell cefnogaeth.

Mae un system addysg Eglwys yn defnyddio hawl rhieni i dynnu'n ôl fel ffordd o hwyluso ymgysylltu â rhieni ac maent yn falch o ddweud, oherwydd yr ymgysylltu hwn, nad oedd yr un rhiant wedi defnyddio'i hawl i dynnu'n ôl. Ar yr un trywydd, cydymdeimlodd arweinydd Cristnogol arall â sefyllfa rhieni/gwarcheidwaid a allai deimlo y gallai'r ffordd yr oedd AG yn cael ei dysgu yn yr ysgol danseilio eu gwerthoedd teuluol a diwylliannol felly byddai hawl rhieni i dynnu'n ôl yn cynnig 'rhwyl ddiogelwch' a fyddai'n caniatáu i drafodaethau teulu am yr ysgol ddiwydd.

Honnwyd bod rhai grwpiau crefyddol yn gweld hawl rhieni i dynnu'n ôl fel symbol o hawl y teulu a'u bod wedi datblygu diwinyddiaeth ynghylch yr hawl i dynnu'n ôl.

Er nad yw'r hyn a ddeallir ynglŷn â maes llafur AG y dyfodol yn achosi unrhyw bryderon crefyddol mawr, dywedodd un grŵp ffydd eu bod yn "meddwl mewn canrifoedd" ac yn poeni y gallai maes llafur y dyfodol fod yn erbyn eu dysgeidiaeth. Gan ddefnyddio'r agwedd tymor hir yma, maent hefyd yn ofni Deddfau Prawf newydd¹ (1567 - 1829). Am y rhesymau hyn, ac eraill, roeddent am i hawl rhieni i dynnu'n ôl aros bob amser.

Enw AG

Mae'r holl brif grwpiau Eglwys yn credu y dylai'r enw aros yn Addysg Grefyddol ar gyfer ysgolion cynradd a'i newid i Astudiaethau Crefyddol (AC) ar gyfer addysg uwchradd. Mae 'Astudiaethau Crefyddol' yn adlewyrchu'r ddisgyblaeth academiaidd addysg uwch gydnabyddedig. Rhannwyd y farn hon gan Gyngor Mwslimiaid Cymru a chyfadran Astudiaethau Crefyddol Prifysgol Caerdydd.

Cwricwlwm AG

Ymhlith y gwahanol grwpiau Cristnogol, roedd ofn bod y cynigion newid enw yn arwain tuag at newidiadau i'r cwricwlwm a fydd yn lleihau llythrennedd crefyddol a'r ddealltwriaeth o gred ymhellach. Bydd diffyg athrawon hyfforddedig AG/AC (fel arfer yn ychwanegiad i athrawon yn hytrach na phwnc penodol), ynghyd ag addysgu 'bydolwg', yn datblygu ymhellach dull cymdeithasegol / ffenomenolegol tuag at y gwaith hwn.

Nid oedd fawr o gefnogaeth i'r cynnig bydolwg gyda chyfraniadau megis "pa fydolwg sy'n ddigon rhesymegol i'w ddysgu?" ac "nid oes y fath bwnc academiaidd â bydolwg". Mae eglwysi yn ofni y bydd crefydd yn dod yn bwnc lleiafrifol, neu ar y gorau yn 50/50 o fewn addysg Crefydd a Bydolwg. Soniodd sawl ymatebydd nid yn unig nad oes dealltwriaeth glir o'r hyn y mae Bydolwg yn ei olygu mewn gwirionedd, ond nid yw athrawon AG erioed wedi cael eu hyfforddi i ddysgu 'bydolwg' gan arwain at un ymatebydd i ddweud "pam na ellir dysgu bydolwg o fewn hanes neu economeg lle os yw hyd yn oed yn bodoli mae'n amlwg yn perthyn".

Cefnogwyd a chydabuwyd y dull trawsbynciol o addysgu AG fel y ffordd ymlaen, ond dywedwyd nad oes rhaid i hyn gynnwys cysyniad amwys Bydolwg. "Nid oes unrhyw bwnc academiaidd o'r enw Crefydd a Bydolwg. Nid oes unrhyw athro erioed wedi'i hyfforddi i ddysgu bydolwg. Felly, beth yn union ydyw?"

Roedd nifer o ymatebwyr Cristnogol yn gwrthwynebu agwedd grefyddol luosog tuag at y cwricwlwm, gan ofni iddo agor y drws i dröedigaeth.

Dewis arall yn lle dod â hawl y rhieni i dynnu'n ôl i ben

Ar hyn o bryd, nid oes rhaid i rieni roi rheswm dros dynnu eu plant allan. Awgrymodd un ymatebydd y gellid fod wedi cyfaddawdu drwy gadw hawl rhieni i dynnu'n ôl, ond gan ddisgwyl i'r rhiant siarad â'r ysgol ac egluro, gan ganiatáu ymgysylltu lle gellid newid meddwl.

¹ <https://www.britannica.com/topic/test-act>

Hawl rhieni i dynnu'n ôl o ACRh

Roedd y rhan fwyaf o grwpiau Cristnogol yn gwrthwynebu'n gryf ddod i ben â hawl rhieni i dynnu'n ôl, gan ei weld fel Gorgyrraedd Wladwriaethol a/neu lechfeddiant gorfodol o werthoedd/moeseg rhwng y wladwriaeth a'r teulu. Y teulu (eu persbectif nhw) yw uned sylfaen cymdeithas ac felly dylai fod yr hyn sy'n ffurfio gwerthoedd cymdeithas, nid y llywodraeth.

Nid oedd pob grŵp eglwys yn gwrthwynebu mewn egwyddor i gael gwared â hawl rhieni i dynnu'n ôl; fodd bynnag, nid oeddent yn gallu gwneud honiad mwy cadarn gan nad oedd cynnwys y cwricwlwm ACRh ar gael eto felly ni ellid ei farnu ar hyn o bryd, gan adael ei briodoldeb oedran a'i her bosibl i athrawiaeth eglwysig yn anhysbys.

Roedd pryderon y byddai gwerthoedd y wladwriaeth yn dominyddu ac y gallent newid gyda'r hwyliau gwleidyddol gan adael rhieni heb unrhyw allu i atal eu plentyn rhag cael eu 'credorfodi' mewn ffyrdd ydynt yn eu cymeradwyo oni bai eu bod yn ddigon cyfoethog i anfon eu plentyn i ysgol nas cynhelir sy'n codi ffioedd.

Dywedodd llawer o ymatebwyr Cristnogol y dylai'r teulu ddysgu materion moeseg a pherthnasoedd a'u bod yn cael eu dirprwyo i ysgolion yn unig a dyna pam y dylai'r hawl i dynnu'n ôl aros. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod llawer o deuluoedd camweithredol yn bodoli ac mai lle'r wladwriaeth yw camu i mewn trwy ysgolion mewn amgylchiadau o'r fath.

Er eu bod yn hapus i addysgu ACRh ac eisoes yn gwneud hynny, mae rhai ysgolion Cristnogol yn ofni y bydd yn ofynnol iddynt symud yn y dyfodol o oddefgarwch, derbyn a thosturi, i gytuno, hyrwyddo a chefnogi perthnasau nad ydynt yn cytuno â nhw.

Cwricwlwm ACRh

O ran egwyddor, roedd pob grŵp eglwysig (roedd rhai Cristnogion unigol yn gwrthwynebu) yn cefnogi addysgu ACRh . Fodd bynnag, lleisiwyd pryderon gan bob Cristion nad yw'r cwricwlwm ACRh newydd wedi'i ddatblygu, gan arwain at ofyn iddynt gefnogi rhywbeth heb wybod yn iawn beth ydyw, gyda'r perygl y gallent gefnogi dod â hawl rhieni i dynnu'n ôl i ben a chefnogi rhywbeth allai droi allan i fod yn erbyn dysgeidiaeth eglwysig / Gristnogol. Larwm arall a leisiwyd gan ddau ymatebydd oedd y pryder pe bai'r cwricwlwm newydd yn cynnig hyblygrwydd o ran beth / sut yr addysgir ACRh, yna gallai'r hyn sy'n deillio fod yn addysgu sy'n ymhell o'r bwriadau gwreiddiol gan eu harwain i gredu na ddylai'r egwyddor o hyblygrwydd/dehongliad lleol gael ei roi ar waith yn y maes pwnc hwn.

Mae rhai ymatebwyr yn teimlo bod rhyw, rhywioldeb, yn ystyr lythrennol addysg, yn mynd at graidd pwy maen nhw'n credu ydyn nhw. Nid ydynt yn teimlo bod hyn yn cael ei ddeall a'i fod yn cael ei leihau.

ACRh Hawliau Dynol, CCUHP, nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb.

Cyffyrddodd sawl ymatebydd â deinameg cred grefyddol, hunaniaeth rhywedd a rhywioldeb. Mae pob un ohonynt yn nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ond mae rhai yn teimlo na fyddai argyhoeddiadau crefyddol ar arddelir yn seiliedig ar ysgrythur yn cael eu trin â'r un pwys a pharch â nodweddion gwarchodedig

eraill, wrth ysgrifennu a chyflwyno'r cwricwlwm ACRh. Mae un ymatebydd yn credu bod Erthygl 14 o'r CCUHP² yn caniatáu i blant eithrio eu hunain.

ACRh - dileu'r gair rhywioldeb

Un maes lle bu bron cytundeb cyffredinol gan yr holl ymatebwyr oedd ei fod yn gamgymeriad cael y gair Rhyw neu Rywioldeb yn y teitl oherwydd ei fod yn tynnu sylw oddi wrth y pwrpas a bydd yn poeni rhieni'n ormodol am yr hyn sy'n mynd i gael ei drafod mewn gwirionedd. Maent yn credu bod 'perthnasau' yn cynnwys rhywioldeb, felly yn y cyd-destun hwn, mae rhywioldeb/perthnasau yn dieisiau gyda chanlyniadau anfwriadol diangen. Nid yw cael gwared ar y gair rhywioldeb yn colli dim ac yn dod â rhai ofnau cyfeiliornu i ben. Nododd sawl ymatebydd fod addysgu am fioleg atgenhedlu yn rhan o Wyddoniaeth ac nad yw'n denu hawl i dynnu'n ôl.

AG/ACRh yn dod â hawl rhieni i dynnu'n ôl o'r cwricwlwm presennol i ben

Disgrifiodd un ymatebwr gwybodys yr hyn a welodd fel y ffolineb posibl o gael gwared ar hawl rhieni i dynnu'n ôl o'r cwricwlwm presennol, i rieni sydd eisoes yn defnyddio'r hawl hwnnw mewn perthynas â'r cwricwlwm presennol. Credai'r ymatebydd hwnnw fod y problemau ysgol / cymunedol a allai ddeillio o benderfyniad o'r fath yn gorbwyso unrhyw enillion posibl. Dywedodd y byddai'n nod dibwrpas ac yn "drewi o ddeddfwriaethu ôl-weithredol".

Hawl rhieni i dynnu'n ôl o AG/ACRh - canlyniad anfwriadol a risgiau anghymesur

Roedd un ymatebydd o'r farn y gallai nifer o rieni ystyried addysg gartref neu symud eu plant i ysgolion sy'n talu ffioedd. Dywedodd un ymatebydd: "Gall Llywodraeth Cymru gael gwared ar hawl rhieni i dynnu eu plant o AG ac ACRh, ond nid oes ganddo'r grym i gael gwared ar hawl rhieni i dynnu eu plant o ddarpariaeth y wladwriaeth yn gyfan gwbl."

Dywedodd un ymatebydd fod Llywodraeth Cymru'n hoffi gweithio o safbwynt pragmatig dadansoddol, ac hyd y gwyddai, ei bod yn gwrthwynebu addysg gartref ac addysg ddi-wladwriaeth yn ideolegol. Aeth ymlaen i ddweud bod risg bellach o dwf

mewn addysg gartref, ysgolion nas cynhelir sy'n codi ffioedd ac ysgolion answyddogol, gan arwain at lai o reolaeth dros yr hyn a sut mae plant yn cael eu haddysgu. Meddai "Yr holl risg yma am nifer mor fach o blant sy'n cael eu tynnu'n ôl mewn gwirionedd ... pam mentro mwy am yr hyn sydd bellach yn fater bach iawn?"

Oedran yn ddangosydd aeddfedrwydd

Adroddodd un ymatebydd bod amrywiaeth o faterion pan fyddwch yn edrych ar barodrwydd datblygiadol. Y pryderon yr oedd yn eu clywed oedd natur broblemus oedran fel dangosydd aeddfedrwydd.

² Mae Erthygl 14 CCUHP yn dweud bod plant yn rhydd i fod o unrhyw grefydd neu ddim o gwbl. Gall eu rhieni eu helpu i wneud penderfyniadau ynghylch crefydd, ond:

- ni all rhiant orfodi plentyn neu berson ifanc i fabwysiadu crefydd
- ni all Rhiant orfodi plentyn neu berson ifanc i roi'r gorau i ddilyn crefydd.

Amseriad yr ymgynghoriad

Dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr ei fod yn gamgymeriad difrifol cynnal yr ymgynghoriad hwn cyn cyhoeddi cwricwlwm gan ei fod yn gadael pobl yn ansicr o'r hyn y maent yn ei gefnogi neu wrthod. Adroddodd nifer fod yr ymgynghoriad a'r amseru wedi gwneud dim ond ychwanegu at y dryswch ac wedi creu rhywfaint o ddrwgdeimlad.

Ymgysylltu ac arweiniad cymunedol

Nododd nifer o ymatebwyr yr angen am ymgysylltu cymunedol o ansawdd i helpu i hysbysu rhieni mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'r cwricwlwm. Mae hyn yn cael ei ystyried yn hynod bwysig gan fod barn bod eithafiaeth grefyddol yn cynyddu gan ei bod yn ymddangos bod cymdeithas yn pgynu fwyfwy. Nododd tri grŵp I ymatebwyr fod angen creu gwybodaeth hygyrch o ansawdd i helpu i hysbysu rhieni. Yn ogystal, mae angen darparu llawer o ganllawiau i ysgolion i'w helpu i ddeall y newidiadau yn llawn ac i'w cynorthwyo i ymgysylltu â rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill.

Teimlai un ymatebydd y bydd angen cymorth proffesiynol ar ysgolion i gynnal ymgynghoriadau ysgol / rhiant gan nad yw'r mwyafrif o ysgolion yn gymwys i wneud hyn.

Teimlwyd hefyd bod y cwricwlwm newydd yn gyfle gwych i ymgysylltu, oherwydd bod y bobl sy'n pryderu fwyaf o'r grwpiau sydd fwyaf anodd i ymgysylltu â nhw ar unrhyw bwnc neu ar unrhyw adeg.

Datblygiad athrawon

Roedd ymatebwyr o'r farn na fydd datblygiad sgiliau gofynnol yr athro yn hawdd nac yn rhad ac mae angen dyrannu llawer iawn o adnoddau. Nododd un ymatebwr y gall rhai athrawon wrthwynebu addysgu yr hyn nad ydynt yn ei gredu ynddo, neu ei addysgu mewn modd sydd heb ei safoni. Byddai angen dull cyson o fynd ati er mwyn galluogi rhieni i fod yn hyderus y byddai'r maes llafur y cytunwyd arno yn cael ei ddysgu yn yr un ffordd ymhob ystafell ddosbarth.

Dywedodd un ymatebydd ei fod yn credu y dylid cyflogi pobl i helpu staff gyda hyfforddiant a chyflwyno'r cwricwlwm newydd trwy'r consortia addysg rhanbarthol³.

Statws teulu ac ACRh

Dywedodd sawl cynrychiolydd eu bod yn cefnogi addysgu pob math o deulu yn ymateb iwtilitaraidd i ddiogelu ac i helpu i osgoi bwlio mewn ysgolion. Dywedodd un ymatebwr: "Ni ddylai plant ddiodef oherwydd penderfyniadau eu rhieni." Tynnodd sylw hefyd at ddeuoliaeth ei eglwysi: tra'n cefnogi dull iwtilitaraidd, mae ei eglwysi yn credu bod teulu'n cynnwys dyn *priod* a menyw.

Asesiad effaith

Roedd un ymatebydd yn ystyried bod yr asesiad effaith yn onest iawn, ond roedd yn pryderu na ddywedodd sut maen nhw'n mynd i liniaru'r effeithiau gwahaniaethol.

3

https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Gwella_ysgolion_trwy_gonsortia_addysg_rhanbarthol_-_Mehefin_2015_0.pdf

ii. Crynodeb o'r gymuned ffydd Fwslimaidd

Yng Nghymru, mae tua 60,000 o bobl Fwslimaidd gyda'r mwyafrif yn Swni. Mae mwyafrif poblogaeth Swni Cymru yn hannu o Affrica ac Is-gyfanidir India. Yn ogystal, mae yna nifer o foscgiau Mwslimaidd Shia, a ddefnyddir yn bennaf gan bobl sy'n hannu o Iran, Irac a gwledydd eraill y Dwyrain Canol. Mae yna un ysgol gynradd Fwslimaidd annibynnol sy'n codi ffioedd .

Gwybodaeth o'r ddeddfwriaeth

O ran y bobl y siaradwyd â hwy, roedd eu gwybodaeth yn amrywio o atebion gwrslyfr ddealltwriaeth is.

Safiadau ar y cynigion

Fel y gymuned, mae'n amrywiol. Roedd yn amrywio o wrthwynebiad cadarn i gefnogaeth lwyr gydag eraill rywle ar hyd y continwwm hwnnw.

Dileu hawl rhieni i dynnu'n ôl o AG

Dim ond un grŵp o ymatebwyr oedd yn gadarn yn erbyn yr egwyddor o gael gwared â hawl rhieni i dynnu'n ôl gan eu bod yn credu ei fod yn rhoi trosoledd ymgysylltu iddynt. Roedd y mwyafrif yn cefnogi ei ddileu yng nghyd-destun cwricwlwm newydd y cytunwyd arno. Roedd dau ymatebydd eisiau ei symud ar unwaith gan eu bod yn gwrthwynebu, mewn egwyddor, hawliau rhieni i dynnu eu plant allan o addysg yn gyffredinol.

Fodd bynnag, amlygodd un ymatebydd y perygl o gael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl o ran newidiadau posibl i'r cwricwlwm yn y dyfodol. Mae'n cefnogi mecanwaith hawl rhieni i dynnu'n ôl sydd wedi'i gloi, yn yr ystyr bod hyd penodol o amser yn perthyn i'r maes llafur. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, os nad yw'n addas mwyach at y diben a bod angen ei ailysgrifennu, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymgynghori ac ail-orfodi hawl rhieni i dynnu'n ôl nes bod cymuned yn fodlon ar y maes llafur newydd.

Cwricwlwm AG

Cefnogaeth gref gan bron pob un o'r ymatebwyr i bob p[entyn dderbyn AG blwraliaethol o ansawdd. Roedd barn bod Cristnogaeth yn derbyn mwy o amser cwricwlwm nag eraill gan arwain at yr ymatebwyr eisiau gweld treulio amser tecach ar bob crefydd wahanol.

Enw AG ac ACRh

Roedd mwyafrif am i'r pwnc aros yn Addysg Grefyddol yn yr Ysgol Gynradd ac iddo gael ei alw'n Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol uwchradd fel porth clir i astudio pellach. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd i dynnu'r gair 'rhywioldeb' o ACRh.

Bydolwg

Gwrthwynebiad cyffredinol i'r cysyniad gan nad oes dealltwriaeth gytûn o'r hyn y mae'n ei olygu, ac mae ofn y byddai crefydd yn cael ei gwanhau. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth gan ddau ymatebydd Mwslimaidd i fydolwg. Roedd un o'r farn ei fod yn syniad da ar y cyfan tra bod y llall yn cynnig bydolwg a fyddai â chefnogaeth gyffredinol - Heddwch a Chydfodoli.

Prevent

Codwyd agenda Prevent gan 7 ymatebydd. Mae sefyllfa'r ysgol yn Birmingham wedi achosi llawer o bryder yn sgil llawer o wybodaeth anghywir. Ailadroddodd rhai ymatebwyr y wybodaeth anghywir hon ynglŷn â maes llafur ACRh gan gredu ei bod yn wir. Mae'r wybodaeth anghywir hon yn cynnwys bod mynegi barn homoffobig yn sbardun i ymyrraeth Prevent.

Rôl a chyfrifoldeb y Wladwriaeth

Yn debyg i lawer o grwpiau Cristionogol, dywedodd un addysgwr Mwslimaidd fod gorgyrraedd a/neu lechfeddiant gorfodol gan y wladwriaeth o werthoedd/moeseg ar y teulu yn destun pryder mawr. "Nid oes a wnelo'r rhan fwyaf o'r pryderon lawer iawn i'w wneud â dysgu rhywioldeb neu hunaniaeth o ran rhywedd, mae'n llawer ehangach na hynny, mae o gwmpas rôl y wladwriaeth, cyfrifoldeb y wladwriaeth, a sut y maent yn trafod gyda rhieni."

ACRh ac addysg rhyw yn seiliedig ar y teulu

Dywedodd sawl ymatebydd, os y bydd hyn yn digwydd o gwbl, y caiff ei weithredu'n wael. Yn gyffredinol, gellir dysgu arferion, ond nid bioleg. Unwaith eto, caiff ymataliad ei ddysgu'n gyffredinol ond nid rhyw diogel gan arwain at lawer o feichiogrwydd digroeso.

Diwinyddiaeth i gefnogi rhagfarn

Dywedodd sawl ymatebydd Mwslimaidd fod peth o'r gwrthwynebiad i ACRh yn rhagfarn (homoffobia) wedi'i gyflwyno fel diwinyddiaeth.

Addysgu LGBT+ o fewn AG

Cytunodd un grŵp o ymatebwyr y dylid dysgu materion LGBT+ fel rhan o AG, felly dylid ei addysgu o safbwynt athrawiaethol.

Addysgu ACRh yn niwtral

Roedd rhai ymatebwyr yn glir y dylid dysgu ACRh mewn modd anfeirniadol niwtral, tra bod ymatebwyr eraill yn cael anhawster gyda sut i ddysgu ACRh ac heb gredorfodi plant i weld LGBT+ fel 'normal'. Gan gydnabod bod angen addysgu mathau teulu mewn dull plwraliaethol er mwyn diogelu, roedd un grŵp o ymatebwyr wedi penderfynu y byddent neu na allent ddysgu yn niwtral, felly ochr yn ochr ag addysgu realiti cyfansoddiad teulu, byddent hefyd yn dysgu'r hyn sy'n ffordd dderbyniol o fyw o sail nad yw'n niwtral.

Datblygu a thrafod y cwricwlwm.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr eisiau bod yn rhan o greu'r cwricwlwm. Roedd llawer o ymatebwyr eisiau i gwricwlwm ACRh fod yn ddigon hyblyg er mwyn cael 'lle trafod' ynghylch ei gyflwyno.

Bydolwg ac LGBT+

Roedd sawl ymatebydd yn cyfateb bydolwg ag LGBT+.

Hawliau hunaniaeth yn gwrthdaro

Credai nifer o ymatebwyr fod gwrthdaro hawliau mewn gweld bod gan hawliau LGBT+ statws cryfach na'u hawliau crefyddol. Dywedasant eu bod eisiau cydraddoldeb hawliau a'u

bod am barchu pobl ond nad ydynt eisiau peryglu neu gyfaddawdu eu hunaniaeth eu hunain. Dywedodd un ymatebydd fod yna deimlad bod y ddeddfwriaeth cydraddoldeb gwrthdaro â'i hun pan bod angen iddo fod yn gyd-drafod.

Ni fydd rhai grwpiau o rieni byth yn cefnogi ACRh o unrhyw fath

Dywedodd un ymatebydd gwybodus ac uchel ei barch fod gan rai rhieni ddrwgdybiaeth lwyr o'r system addysg seciwlar. Dywedodd fod llawer o'r rhieni hyn eisoes wedi tynnu eu plant allan o'r ysgol gan ddewis ysgol gartref mewn grwpiau neu anfon eu plant i un o'r ychydig iawn o ysgolion Mwslimaidd sydd ar gael, gan eu bod yn syml iawn ddim am drafod rhyw neu rywioldeb o unrhyw fath.

Rhieni'n gadael

Soniodd nifer o ymatebwyr am rieni'n gadael oherwydd ACRH – rhieni'n tynnu eu plant o addysg y wladwriaeth i ysgolion â ffioedd ac ysgol gartref.

Ymgysylltu â rhieni

Roedd cefnogaeth gyffredinol i hyn ddigwydd yn gyflym ac mewn ffordd ystyrlon. Roedd ymatebwyr o'r farn mai hwn oedd yr unig ffordd i gael unrhyw gefnogaeth, yn enwedig ar gyfer ACRh. Dywedodd ymatebwyr fod yn rhaid i'r rhieni eu hunain gael eu haddysgu.

Islam a hunaniaeth o ran rhywedd

Dywedodd un ysgolhaig Islamaidd gwybodus fod gan Islam fwy na thebyg un o'r safbwyntiau mwyaf agored o'r holl grefyddau ar hunaniaeth o ran rhywedd. Mae yna ddigon mewn hanes, ac yn y Qur'an i'r cysyniad o drawsrywedd beidio â gwrthdaro â chymunedau ffydd. Adroddodd mai'r broblem yw ei bod yn ymddangos bod hyn wedi'i anghofio.

Gwybodaeth a safbwyntiau cymunedol

Adroddodd yr holl bobl berthnasol y gwnaethom eu cyfweld lawer o drafod o fewn eu rhan nhw o gymunedau Cymru, ond ychydig o wybodaeth gywir. Roedd y felin sibrydion eisoes wedi gafael ac yn dominyddu'r naratif.

Twf anoddefgarwch mewn ysgolion

Teimlai sawl llywodraethwr ysgol fod llawer o rieni Mwslimaidd a Christnogol yn dod yn llai goddefgar i'w gilydd ac o gyfansoddiad teulu anhraddodiadol.

Dysgu ACRh mewn Mosgiau

Dywedodd un ymatebydd adnabyddus â rhwydweithiau eang fod llawer o bobl eisiau dysgu ACRh mewn mosgiau. Roedd yn credu na fyddai byth yn cael ei addysgu mewn mosgiau gystal neu mor gynhwysfawr ag y caiff ei addysgu mewn ysgolion, ac na fyddai materion LGBT+ yn cael eu haddysgu fel realiti bywyd modern.

Ymsefydlwyr newydd

Nodwyd hefyd gan nifer o ymatebwyr mai Mwslimiaid a Christnogion newydd eu setlo fyddai â'r wybodaeth leiaf am y cynnig a'u bod yn adlewyrchu'r addysg grefyddol a normau diwylliannol addysgol eu gwlad wreiddiol. Adroddodd nifer o ymsefydlwyr newydd ac eithaf newydd nad oeddent am i'r prif grefyddau arall gael eu dysgu i'w plant rhag ofn

iddynt drosi. Roedd un ymatebydd yn glir, gan ei bod yn credu bod y DU yn wlad Gristnogol, pam y dylid dysgu crefyddau eraill heblaw am Gristionogaeth mewn ysgolion? Roedd hi'n dyfynnu Sawdi Arabia fel enghraifft Fwslimaidd o'r egwyddor honno.

Adroddodd Oasis, sy'n cefnogi Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches, bod AG / ACRh wedi dod yn fater o bwys ac yn gadael eu cleientiaid yn teimlo wedi'u cyfaddawdu a'u dadrymuso gan y cynigion hyn. Mewn rhai o'u gwledydd gwreiddiol, nid yw addysg yn amlblwyfol ac maent yn ofni bod eu plant yn cael eu haddysgu am grefyddau nad ydynt yn eu cefnogi neu hyd yn oed yn gwybod llawer amdanynt.

Addasrwydd i oedran

Roedd hwn yn fater a gododd dro ar ôl tro. Roedd yn ymddangos bod cred sylfaenol bod addasrwydd i oedran yn fater gwahanol yng nghyd-destun plant Mwslimaidd. Er bod hyn yn bryder a fynegwy gan lawer, nododd un grŵp o ymatebwyr yn glir mai ar gyfer ACRh, yr oedran cywir i addysgu hyn oedd ym mlwyddyn chwech (10 neu 11 oed).

Gwahanu bechgyn oddi wrth ferched mewn ACRh

Credai un grŵp mawr o famau a neiniau yn bennaf y dylid gwahanu bechgyn a merched ar gyfer y wers hon.

Lobi wleidyddol LGBT+ a'r gymuned Fwslimaidd

Roedd un ple am gefnogaeth gan y lobi LGBT+ "... angen deall ein bod mewn sefyllfa wahanol iawn. Mae cymaint o ddiffyg datblygiad, cymaint o waith y mae angen ei wneud. Rhaid i'r lobi LGBT+ ddeall hyn. Mae angen llawer o help arnom i newid y syniadau hynny."

Cydlyniant cymunedol

Roedd cydlyniant cymunedol yn bryder mawr i lawer o ymatebwyr ac er bod gwahanol safbwyntiau wedi'u mynegi ynghylch y cyfrifoldeb am sefyllfa Birmingham, nid oedd unrhyw un ei eisiau, ac roedd ofn y gallai ddigwydd yng Nghymru. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn awyddus i herio'r naratif cyfredol o gamddechongliadau trwy ymgysylltu â'r gymuned yn broffesiynol.

iii. Cymuned ffydd Hindŵaidd - Cyngor Hindŵaidd

Mae 10,571 o Hindŵiaid yn byw yng Nghymru gyda bron eu hanner, 4,845, yn byw yng Nghaerdydd a'r poblogaethau mwyaf nesaf yw 729 yng Nghasnewydd a 717 yn Abertawe.

Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth

Hyd at hyn, nid yw'r mater hwn wedi bod o fawr o ganlyniad i'r gymuned Hindŵaidd eto ac roedd lefelau gwybodaeth yn adlewyrchu hyn.

Safiadau ar y cynigion

- Nid oes unrhyw aelod o'r cyngor erioed wedi defnyddio ei hawl rhiant i dynnu'n ôl ac ni nodwyd unrhyw ddiddordeb i wneud hynny ac nid oeddent yn adnabod unrhyw un a oedd wedi gwneud hynny.
- Calonogwyd rhai aelodau o'r cyngor trwy ehangu'r cwricwlwm i grefyddau eraill ond roedd ganddyn nhw amheon ynghylch dysgu rhai pynciau fel dyneiddiaeth ynddo.

- Roeddent eisiau cydraddoldeb o ran sut, a faint roedd y gwahanol grefyddau'n cael eu dysgu.
- Roeddent yn gweld AG ac ACRh dda fel llwybr tuag at gymdeithas sy'n oddefgar sy'n derbyn a deall, wedi'i llenwi â phobl hyddysg.
- Ar ôl llawer o drafod, roeddent i gyd yn cytuno mai Ffydd, gwerthoedd a moeseg oedd y label orau ar gyfer AG. Cefndir: nid ydynt yn credu bod Hindwâeth yn grefydd.
- Nid oedd y geiriau rhyw neu rywioldeb yn cael eu cefnogi ac fe'u hystyriwyd yn broblem ddiangen i rieni ddod drosti pan oedd perthnasoedd yn iawn.
- Gwelwyd bod y geiriau rhyw neu rywioldeb ond yn cyfeirio at LGBT+; fodd bynnag, roeddent yn gwybod nad oedd hynny'n gywir, ond yn adlewyrchu'r hyn y mae eraill yn ei feddwl.

iv. Cymunedau ffydd Iddewig

Mae 2064 o bobl o'r ffydd Iddewig yn byw yng Nghymru. Mae 1219 yn byw rhwng Abertawe a Chasnewydd, gyda 461 yn byw yng Nghanolbarth a Gogledd Cymru.

Gwybodaeth am y ddeddfwriaeth

Peth gwybodaeth - yn weithredol ar gromlin ddysgu.

Safaiadau ar y cynigion

- Gwrthwynebiad tuag at gael gwared ar hawl rhieni i dynnu'n ôl ac yn awyddus i weld agwedd amlblwyfol tuag at AG. Fodd bynnag, roedd eu gwrthwynebiad i dynnu hawl rhieni i dynnu'n ôl yn feddalach.
- O ran AG ac ACRh, credant ei bod yn hanfodol eu bod yn dysgu goddefgarwch a pharch ond mae angen ei wneud gyda sensitifrwydd a gofal am ofynion crefyddol a synwyrusrwydd crefyddol.
- Maent yn cydnabod yr angen am gydlynw crefyddol / gwladwriaethol ynghylch y camau nesaf. Nid ydynt am ailadrodd Birmingham a gallant weld risgiau cydlyniant cymunedol.
- Mae'n bwysig nodi bod llawer o safbwyntiau mewn Iddewiaeth ynghylch y materion hyn. Yng Nghymru, nid oes eto gennym y math o gymuned Iddewig fyddai'n cael eu heffeithio fwyaf gan gael gwared ar hawl rhieni i dynnu'n ôl, ond wrth gwrs gallai'r demograffig hwnnw newid.

B. Sefydliadau BAME a'r cynigion

Gwybodaeth am y cynigion

Yn aml, mae mwyafrif y grwpiau BAME y gwnaethom eu cyfweld yn bwynt galw cyntaf dibynadwy i lawer o bobl ynghylch materion fel y cynigion newydd hyn. Roedd pawb yn deall pwysigrwydd gallu eu sefydliadau i gynorthwyo pobl yn llawn gyda'r mater hwn, a byddent yn gwerthfawrogi cymorth gyda'r dasg hon. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff hyn angen cymorth, gan fod eu lefelau dealltwriaeth yn annigonol gyda nifer yn ailadrodd gwybodaeth anghywir.

Rhwystrau i wybodaeth

Roedd y rhwystrau i wybodaeth a amlygwyd gan y sefydliadau BAME yn niferus ac yn cynnwys:

- Camwybodaeth yn cael ei ddarparu trwy eu sefydliadau crefyddol.
- Gwybodaeth anghywir yn cael ei darparu ar lefel llawr gwlad.
- Pwysau pwerus gan gyfoedion
- Arweinyddiaeth a chredoau homoffobig yn rhwystro mynediad at wybodaeth gywir.
- Diffyg cyffredinol o sgiliau a hyder iaith.
- Angen cyswllt wyneb yn wyneb, am resymau iaith a diwylliannol.
- Yn ogystal â rhwystrau iaith, mewn rhai cymunedau mae diffyg ymddiriedaeth yn y Wladwriaeth.
- Iaith, oedran a diwylliant.
- Nid yw gweithwyr mudol wedi'u trefnu'n dda felly byddant yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i wybodaeth gywir.
- Gall gwybodaeth o Saesneg ysgrifenedig fod yn isel iawn, yn enwedig ymhlith y genhedlaeth gyntaf a gweithwyr mudol.
- Rhywedd - Patriarchiaid yn blocio rhag mynd i'r teulu cyfan.
- Daw llawer o bobl o ddiwylliant homoffobig y maent yn ei ystyried yn normal.
- Daw llawer o breswylwyr newydd o gefndiroedd tlawd - amaethyddol ac anllythrennog, ac felly maen nhw'n dod â chredoau sy'n tarddu o'u diwylliant i'r DU.
- Mae ceiswyr lloches a Ffoaduriaid yn aml yn ffoi rhag gwrthdaro crefyddol sy'n cymhlethu'r mater hwn.
- Mae'r rhwystrau iaith yn amlwg, ond i fenywod mae yna faterion eraill, megis lefelau is o lythrennedd, diffyg mynediad at wybodaeth trwy'r mosgiau a dibyniaeth gwagedd ar eu gwŷr am wybodaeth.
- I Sipsiwn a Theithwyr, mae gan anllythrennedd effaith ddiwylliannol enfawr, gyda chyfraddau o 90% ar gyfer y rhai dros 20 oed.

5. Cydnabyddiaethau

Hoffai Tîm Cognition gydnabod y cyfraniadau a wnaed i'r gwaith hwn gan y cymunedau ac unigolion ffydd a BAME a wnaeth sicrhau eu bod ar gael yn gyflym ac a oedd mor hael â'u hamser. Afraid dweud, heb y lefel uchel hon o gydweithredu, ni allai'r ymgynghoriad dwfn hwn fod wedi digwydd.

